George M. Ll. Davies, 1880–1949
Heddychwr a chymodwr

Ar ddiwedd y 19eg yr oedd cymdeithas gref o Gymry yn Lerpwl llawer ohonynt o'r gogledd oedd wedi ymfudo i'r ddinas fawr i chwilio am waith. Yn eu plith yr oedd John Davies, masnachwr te llwyddiannus, cynghorydd Rhyddfrydol a blaenor yn eglwys Princess Road, a'i wraig Gwen Davies oedd yn wreiddiol o Dal-y-sarn ac yn wraig gadarn, sicr ei daliadau ac yn un a ddylanwadodd yn drwm ar ei chwe phlentyn. Ganwyd mab iddynt ar 31 Ebrill 1880 a rhoddwyd iddo'r enw urddasol George Maitland Lloyd Davies.

Aeth George M. Ll. Davies i ysgol gynradd breifat, yna dilynodd ei frodyr i'r enwog Liverpool Institute ac o'r fan honno dechreuodd fel clerc ym Manc Lerpwl. Ond nid oedd yn fodlon ei fyd yno a theimlai dynfa tuag at y weinidogaeth Gristnogol. Er hynny, parhaodd yn y banc a chafodd ddyrchafiad ym 1908 i fod yn oruchwyliwr cangen yn Wrecsam. Yno, penderfynodd ef a'i frodyr ymuno â'r Ffiwsilwyr Cymreig a hynny'n groes i ddymuniad eu mam. Yn fuan sylweddolodd ei gamgymeriad ac yn ddiweddarach ysgrifennodd, "Sylweddolaf fy mod, drwy ymuno â'r fyddin i gymhwyso fy hun i gymryd bywyd cyd-ddyn wedi ymddwyn yn groes i ewyllys Duw ac wedi bradychu Crist." O ganlyniad penderfynodd chwilio am waith fyddai'n dod ag ysbryd cariad a chymod rhwng pobl.

Bu'n fregus ei iechyd am gyfnod ond derbyniodd swydd fel ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Tai a Chynllunio Trefi Cymru a noddwyd gan yr Arglwydd Davies. Er ei fod yn hapus yn y gwaith eto yr oedd anniddigrwydd yn ei galon wrth iddo'i holi ei hun ynghylch ystyr ei fywyd. Ym 1915 gwelodd ddatganiad Brawdoliaeth y Cymod a bwysleisiai mai cariad – fel y'i datguddiwyd yn Iesu Grist – oedd yr unig ffordd i gael buddugoliaeth dros ddrygioni. Penderfynodd y byddai o hynny ymlaen yn ceisio heddwch a chymod rhwng pobl â'i gilydd a daeth yn gyd-ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod gyda'r Parch. Richard

Roberts, gan fynd i weithio i Bloomsbury, Llundain. Blynyddoedd anodd oedd y rhain i heddychwyr oherwydd Rhyfel Mawr 1914–1918, a'r mwyafrif yn frwd tros wladgarwch Prydeinig a theyrngarwch i'r brenin. Prif waith George Davies i ddechrau oedd hyrwyddo gwaith y cymdeithasau oedd eisoes yn bodoli, sefydlu rhai newydd a gofalu am gylchgrawn cyntaf cymdeithas y cyfnod sef *The Venturer*. Yn ddiweddarach ymddangosodd cylchgrawn Cymraeg *Y Deyrnas* a barhaodd am dair blynedd. Priododd â Leslie Royde Smith ym 1916. Ond erbyn hynny roedd yr awdurdodau'n dechrau cadw golwg arno; fe'i gwysiwyd i ymddangos gerbron tribiwnlys fel gwrthwynebydd cydwybodol a chafodd ei ryddhau'n amodol. Anfonwyd ef i fod yn was fferm yn Llanaelhaearn yn Llŷn a thra roedd yno dechreuodd bregethu am heddychiaeth yn y pentrefi cyfagos. Ymhen dim fe'i cafodd ei hun gerbron y llys ym Mangor am dorri cyfraith y brenin a dedfrydwyd ef i fis o garchar yn Wrecsam. Yn ddiweddarach ymddangosodd gerbron llys milwrol a chael ei ddedfrydu i ddwy flynedd o lafur caled yn Wormood Scrubs.

Yn ystod y ddwy flynedd hynny bu mewn pedwar carchar, sef Wormwood Scrubs, Knutsford, Smethwick a Dartmoor, a chafodd lawer o brofiadau dirdynnol a effeithiodd ar y gweddill o'i fywyd. Wedi i'r Rhyfel Mawr ddod i ben cafodd ei ryddhau ac ymsefydlodd yn Nant Ffrancon, Dyffryn Ogwen, ond ar ôl byr amser aeth i Blas Maenan, Dyffryn Conwy, gan ddechrau gweithredu fel cymodwr. Bu'n gymodwr mewn ymrafaelion diwydiannol, megis ceisio amodau teg i'r chwarelwyr yn chwareli'r Penrhyn, Trefor a Phenmon. Ymunodd â'r Crynwyr oherwydd eu pwyslais ar heddychiaeth. Hefyd bu'n allweddol wrth setlo'r anghydfod rhwng cwmni'r Ocean a'r glowyr yn streic 1921 a streic fawr 1926. Ym 1923 fe'i hetholwyd yn Aelod Seneddol am gyfnod byr, yn cynrychioli Prifysgol Cymru. Cefnogai fudiad COPEC (Christian Organisation of Politics, Economics a Citizenship) yn frwd, a gweithiodd yn egnïol rhwng 1925 a 1930 dros Fudiad Addysg y Gweithwyr.

Bu'n weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nhywyn, Meirionnydd, am gyfnod byr ond oherwydd anghydweld

fe ymadawodd gan ailymuno â'r Crynwyr. Derbyniodd ysgoloriaeth ganddynt i fynd i Goleg Woodbrooke, Selly Oak, Birmingham, gyda'r bwriad o astudio gwaith ac egwyddorion y Crynwyr, ond ar ôl blwyddyn a hanner symudodd i Fryn Mawr, Gwent ym 1932 i weithio mewn canolfan gymdeithasol o dan nawdd y Crynwyr. Yno gweithiodd ymhlith y di-waith yng nghymoedd y de a chafodd wahoddiad i fynd i Lundain i gyfarfod Gandhi.

Ym 1937 etholwyd ef yn llywydd Cymdeithas Heddychwyr Cymru. Wedi cyfnod byr yn Rhosllannerchrugog dychwelodd i'r de i weithio fel warden ym maes-yr-haf, Trealaw, Rhondda, sef gwersyll gwyliau a sefydlwyd gan y Crynwyr; bu yno hyd 1946. Pan dorrodd ei iechyd, fe symudodd ef a'i briod i Ddolwyddelan, Dyffryn Conwy, lle yr ymunodd eto â'r Presbyteriaid. Bu farw yn Ysbyty Dinbych ar 16 Rhagfyr 1949 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Dolwyddelan.